

Teitl y Ddogfen:		PRIFYSGOL CAERDYDD – POLISI AR GYFER CYHOEDDI COFNODION A PHAPURAU CYFARFODYDD PWYLLGORAU	
Awdur(on) (enw, teitl swydd ac Adran):		Katy Dale (Swyddog Llywodraethu) Alex Payne (Cynghorydd Llywodraethu)	
Rhif y Fersiwn:		Fersiwn 1	
Statws y Ddogfen:		Cymeradwy	
Dyddiad Cymeradwyo:		12 Mawrth 2020	
Cymeradwywyd Gan:		Pwyllgor Llywodraethu	
Dyddiad Dod i Rym:		12 Mawrth 2020	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:		Mawrth 2021	
Y Fersiwn a Ddisodlwyd:		I'w gadarnhau	
Hanes y Ddogfen			
Fersiwn	Dyddiad	Awdur/Ymgynghorwyr	Nodiadau ar Ddiwygiadau
1	12 Mawrth 2020		

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu fformat arall, cysylltwch â Desg Gwasanaeth TG y Brifysgol ar + 44 (0) 29 208 74487 neu ebostiwch: insrvConnect@caerdydd.ac.uk

Prifysgol Caerdydd

POLISI AR GYFER CYHOEDDI COFNODION A PHAPURAU CYFARFODYDD PWYLLGORAU

1. Diben

- 1.1. Cadarnhau sut cyhoeddir cofnodion a phapurau mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor, y Senedd ac is-bwyllgorau'r Pwyllgorau hyn a'r broses er mwyn gwneud hynny.

2. Cyd-destun a Chwmpas

- 2.1. Nod y Brifysgol yw gweithredu gyda thryloywder llawn ynghylch sut mae'n gwneud penderfyniadau. I'r diben hwnnw, mae'r polisi hwn yn disgrifio'r mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r papurau sydd ar gael i'r staff.
- 2.2. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen cyfrinachedd ynghylch cynllunio masnachol a strategol y Brifysgol, a bod angen preifatrwydd o ran y staff a'r myfyrwyr. Mae'r polisi hwn, felly, yn sicrhau y caiff anghenion preifatrwydd yr unigolion hyn eu diogelu.
- 2.3. Lluniwyd y polisi hwn yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth Diogelu Data.
- 2.4. Mae'r polisi'n berthnasol i bapurau a chofnodion y Cyngor, y Senedd, eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau, ac ysgrifenyddiaeth y pwyllgorau hyn.
- 2.5. Awgrymir y dylid adolygu'r polisi hwn bob 2 flynedd.

3. Cysylltiad â pholisïau sy'n bodoli'n barod

- 3.1. Lluniwyd y polisi hwn yn unol â darpariaethau Ordinhadau'r Brifysgol a'r rheolau sy'n bodoli'n barod ynghylch cyhoeddi cofnodion. Dywed Ordinhad 12.5 "Bydd y Cofnodion, ac eithrio unrhyw Gofnodion neu Gopiâu o Ffeiliau cyfrinachol, ar gael o dan Gynllun Cyhoeddi'r Brifysgol, ar ôl iddynt gael eu cadarnhau".
- 3.2. Nid yw'r polisi hwn yn disodli unrhyw un o ofynion Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol, y Cynllun Cyhoeddi neu'r Polisi Categoriaddio ac Ymdrin â Gwybodaeth. Bydd yr holl bolisïau cysylltiedig yn gyson gyda'r polisi hwn.
- 3.3. Dylid edrych ar y polisi hwn ochr yn ochr â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, deddfwriaeth Diogelu Data, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.
- 3.4. Lluniwyd y polisi hwn yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru), 2011 a Safonau'r Gymraeg sy'n gysylltiedig ag ef, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol bod yr holl wybodaeth a roddir ar y wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4. Datganiad Polisi

- 4.1. Ceir y datganiad polisi ar y tudalennau canlynol.

5. Cyfrifoldebau

- 5.1. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Pwyllgor Llywodraethu, ar ran y Cyngor, wedi cytuno ar sut cymhwysir y polisi hwn.
- 5.2. Y Tîm Llywodraethu sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi ac am reoli'r wybodaeth y manylir arni yn y polisi hwn.
- 5.3. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am wybodaeth sy'n dod o dan y polisi at y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu.
- 5.4. Gall fod achosion lle mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am wybodaeth sy'n dod o dan y polisi hwn fel cais Rhyddid Gwybodaeth ac felly bydd hyn yn amodol ar gymhwyso Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a pholisïau cysylltiedig y Brifysgol. Mae pwynt 1.19 yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch ymdrin â'r ceisiadau hyn.

6. Cydymffurfio

- 6.1. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r polisi hwn yn egluro sut mae hyn yn berthnasol i wybodaeth Pwyllgorau. Wrth ddatgelu data personol, rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data yn ogystal. Gellir cael cyngor ar ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data gan y tîm Gwasanaethau Sicrwydd.

7. Diffiniadau allweddol

- 7.1 Cofnodion llawn: y cofnodion heb i rannau gael eu hepgor
- 7.2 Y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu: mae hyn yn cyfeirio at y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu llawn ac mae'n cynnwys y swyddogaeth Cefnogi Pwyllgorau. Y cyswllt ar gyfer y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu mewn perthynas â'r polisi hwn yw Committees@caerdydd.ac.uk.
- 7.3 Y Sawl sy'n Cymryd y Cofnodion: yr unigolyn sy'n cymryd ac yn ysgrifennu'r cofnodion.
- 7.4 Awdur y papur: yr unigolyn sydd wedi ysgrifennu'r papur. Lle ceir nifer o awduron, hwn fydd yr unigolyn sy'n cyflwyno'r papur i'r Tîm Gwasanaethau Llywodraethu.
- 7.5 Y Pwyllgorau y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt yw:
 - Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol, adran A, 1.1)
 - Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (Ordinhad 10A, adran 1.1)
 - Pwyllgor Archwilio a Risg (Ordinhad 10B, adran 1.1)
 - Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol, adran A, 1.1)
 - Is-Bwyllgor Ystadau a Seilwaith (Ordinhad 10E, adran 2.16)
 - Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (Ordinhad 10E, adran 1.1)
 - Pwyllgor Llywodraethu (Ordinhad 10C, adran 1.1)

- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol, adran A, 1.1)
- Pwyllgor Cymrodoriaethau a Graddau Er Anrhydedd (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol)
- Is-Bwyllgor Buddsoddiadau a Bancio (Ordinhad 10E, Atodiad A, adran 1)
- Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol, adran A, 1.1)
- Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-aelodau Staff (Ordinhad 10D, adran 1.a)
- Panel Sefydlog Rhaglenni a Phartneriaid (Panel Sefydlog ac Is-Bwyllgorau Pwyllgorau'r Brifysgol, adran A, 1.1)
- Pwyllgor Diswyddiadau (Statud XV, adran 11(1))
- Pwyllgor Taliadau (Ordinhad 10D, adran 1)

Mae'r cofnodion ar gyfer pob pwyllgor arall yn cael eu cadw gan ei Ysgrifennydd.

POLISI AR GYFER CYHOEDDI COFNODION A PHAPURAU CYFARFODYDD PWYLLGORAU

1. Cyhoeddi Cofnodion

1.1. Cyhoeddir cofnodion y Cyngor, y Senedd a Phwyllgorau ac Is-Bwyllgorau'r Pwyllgorau hyn ar wefan y Brifysgol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd
- Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau
- Y Cyngor
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Y Pwyllgor Polisiâu ac Adnoddau
- Pwyllgor Llywodraethu
- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd
- Is-Bwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored
- Y Senedd

1.2. Yn ogystal cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Llys ar wefan y Brifysgol.

1.3. Ni chaiff cofnodion ar gyfer y Pwyllgorau canlynol eu lanlwytho oherwydd natur sensitif a phersonol yr eitemau a drafodir:

- Dyrchafiadau Academaidd
- Pwyllgor Safonau Biolegol
- Is-Bwyllgor Diogelwch Addasu Genetig a Chyfryngau Biolegol
- Pwyllgor Cymrodoriaethau a Graddau Er Anrhydedd
- Y Gronfa Bensiwn
- Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-aelodau Staff
- Pwyllgor Diswyddiadau
- Pwyllgor Taliadau

- 1.4. Ni chaiff y cofnodion ar gyfer y Pwyllgorau canlynol eu lanlwytho oherwydd cyfrinachedd masnachol yr eitemau a drafodir:
 - Is-Bwyllgor Ystadau a Seilwaith
 - Is-Bwyllgor Buddsoddiadau a Bancio
- 1.5. Cyhoeddir y rhain ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol, ynghyd â'r tair blynedd academiaidd flaenorol. Tynnir cofnodion oddi ar y wefan pan fyddant y tu hwnt i'r amserlen hon.
- 1.6. Cyhoeddir cofnodion yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 1.7. Yn amodol ar yr amser sy'n ofynnol i'w cyfieithu, caiff cofnodion eu lanlwytho cyn pen 10 niwrnod ar ôl cael eu cadarnhau yn y cyfarfod dilynol.

Y broses ar gyfer cyhoeddi

- 1.8. Dylid ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd pwyllgor yn gofnod llawn o'r cyfarfod ac ni ddylid eu hysgrifennu fel bod modd eu cyhoeddi. Yn dilyn y cyfarfod a lle y bo'n berthnasol, bydd y sawl sy'n cymryd y cofnodion yn cynhyrchu dwy set o gofnodion; un set sy'n gofnod llawn o'r cyfarfod, ac un sy'n cynnwys rhannu wedi'u hepgor lle tybir bod angen hynny.
- 1.9. Dylid hepgor rhannau o'r cofnodion sy'n cyfeirio at drafodaethau ynghylch papurau sydd yn y categori Cyfrinachol lawn (C1) yn awtomatig. Fodd bynnag, dylai'r penderfyniad a'r teitl gael eu gadael yn y copi o'r cofnodion y gellir eu cyhoeddir.
- 1.10. Dylid ystyried rhannau o'r cofnodion sy'n cyfeirio at bapurau sydd yn y categori Cyfrinachol (C2) a'u hepgor lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol yn unol â phwynt 1.11 ac 1.13.
- 1.11. Os oes gan y sawl sy'n cymryd y cofnodion gwestiynau ynghylch hepgor rhannau, dylid cyfeirio'r rhain, yn y lle cyntaf, at Ysgrifennydd y Pwyllgor. Os oes angen ystyried ymhellach, dylid cyfeirio hyn at y Cadeirydd.
- 1.12. Os oes angen hepgor cofnod, dylid dileu'r rhan hon o'r cofnodion a rhoi [WEDI'I HEPGOR] neu [WEDI'I HEPGOR YN RHANNOL] yn ei lle.
- 1.13. Rhoddir y cofnodion hyn i Gadeirydd a/neu Ysgrifennydd y Pwyllgor i'w cymeradwyo. Gofynnir i'r Cadeirydd a/neu'r Ysgrifennydd gadarnhau bod y set lawn o gofnodion yn gywir, a fersiwn gyda rhannau wedi'u hepgor i'w chyhoeddi ar y wefan (lle y bo'n berthnasol). Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cofnodion hyn yn derfynol yn ei gyfarfod nesaf, wedi hynny gellir eu cyhoeddi.
- 1.14. Gall yr eitemau y bydd angen eu hepgor o bosibl gynnwys:
 - Enwau neu wybodaeth a allai ddangos pwy yw unigolion lle byddai datgelu hyn yn torri deddfwriaeth Diogelu Data

- Trafodaethau cychwynol ynghylch cynigion buddsoddi, prosiect neu achos busnes
- Eitemau cyfrinachol yn fasnachol, eitemau o dan Reolau Rhestru a thrafodaethau sy'n ymwneud â gwario cronfeydd bond

Gall eitemau i'w hepgor ar gyfer trafodaethau ynghylch eitemau Cyfrinachol (C2) neu Heb fod yn Gyfrinachol gynnwys y canlynol (ond nid dyma'r cyfan):

Categori Gwybodaeth	Gwybodaeth i'w hepgor	Enghreifftiau
Cyfrinachol lawn (C1)	<ul style="list-style-type: none"> • Data personol sensitif iawn (e.e. cofnodion meddygol, materion disgyblu difrifol) • Data nad ydynt yn ddata cyhoeddus sy'n ymwneud â gweithgarwch busnes a allai gael effaith ddifrifol ar fuddiannau masnachol neu enw da corfforaethol • Gwybodaeth sy'n hwyluso diogelu diogelwch personol neu swyddogaethau allweddol • Ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau ynghylch tribiwnlysoedd, cwynion cyflogaeth, cwynion a diswyddiadau lle rhoddir manylion • Trafodaethau ynghylch materion cyfredol o ran digwyddiadau, ymchwiliadau, archwiliadau a thwyll posibl lle rhoddir manylion • Cyfeiriadau at achosion o dorri'r ordinadau • Cyfeiriadau at drafodaethau ag Undebau Llafur lle na ddaethpwyd i gytundeb • Cyfeiriadau at berfformiad unigolion neu gwmnïau a gyflogir gan y Brifysgol • Cyfeiriadau at gynlluniau diswyddo neu leihau staff • Cyfeiriadau at gyflog neu daliad bonws unigolyn • Cyfeiriadau at roddion a wnaed i'r Brifysgol nad ydynt yn wybodaeth gyhoeddus eto neu sy'n ddiennw • Cyfeiriadau at gynyddrannau cyflogau • Cyfeiriadau at gyflwr neu hanes meddygol unigolyn • Cyfeiriadau at ymchwil a all fod yn sensitif o ran diogelwch • Cyfeiriadau at Trawsffurfio Caerdydd cyn i'r cynigion gael eu rhannu'n gyhoeddus

		<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol • Trafodaethau ynghylch gwariant y gronfa bond • Trafodaethau ynghylch prosiectau ystadau posibl nad ydynt eto wedi'u ffurfioli mewn achos busnes
Cyfrinachol (C2)	<ul style="list-style-type: none"> • Data personol • Data y gellir eu defnyddio i adnabod unigolyn • Data nad ydynt yn ddata cyhoeddus sy'n ymwneud â gweithgarwch busnes a allai gael effaith ar fuddiannau ariannol neu strategaeth y Brifysgol • Gwybodaeth sy'n diogelu asedau'r Brifysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau ynghylch partneriaethau strategol posibl nad ydynt wedi'u cadarnhau eto • Trafodaethau ynghylch newidiadau neu addasiadau i'r Cynllun Meistr Ystadau cyfredol nad ydynt yn wybodaeth gyhoeddus eto • Cyfeiriadau at ddisgwyliadau'r gyllideb bresennol a rhagolygon ariannol a ddarparwyd cyn cyhoeddi cyfrifon blynyddol y Brifysgol (gan gynnwys gwariant cyfalaf, gwariant gweithredu, llif arian a reffeniw) • Manylion cronfeydd wrth gefn y Brifysgol • Cyfeiriadau at ddata AD cyn iddynt gael eu gwneud yn gyhoeddus
Heb fod yn Gyfrinachol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth nad yw yn y categorïau uchod 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes angen hepgor gwybodaeth yr ystyrir nad yw'n gyfrinachol.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

1.15. Gall fod achosion pan fydd angen hepgor rhannau o gofnodion a rennir ag aelodau Pwyllgor ar gyfer aelodau unigol oherwydd bod gwrthdaro rhwng buddiannau.

1.16. Os oes gan aelod Pwyllgor wrthdaro rhwng buddiannau ac na chaiff weld rhan o'r cofnodion oherwydd y gwrthdaro hwn, dylid tynnu'r rhan berthnasol o'r cofnodion a rhoi [WEDI'I HEPGOR] neu [WEDI'I HEPGOR YN RHANNOL] yn ei le.

1.17. Dylid rhannu'r cofnodion hyn wedi'u golygu â'r Ysgrifennydd a/neu'r Cadeirydd er mwyn cadarnhau bod y gwrthdaro rhwng buddiannau wedi'i reoli'n briodol. Bydd yr

Ysgrifennydd yn sicrhau mai'r fersiwn wedi'i golygu'n unig, sy'n sôn yn benodol am wrthdaro rhwng buddiannau, y bydd yr unigolyn (unigolion) o dan sylw yn ei derbyn.

- 1.18. Ar gyfer cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg, dylid ystyried hepgor rhannau o'r cofnodion cyn i'r rhain gael eu rhannu ag archwilwyr mewnol ac allanol. Felly gall fod angen paratoi fersiynau ychwanegol ac wedi'u teilwra o'r cofnodion yn benodol i'r archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Er enghraifft, bydd rhannau sy'n trafod penodi archwilwyr allanol a thalu archwilwyr mewnol yn cael eu hepgor.

Storio a Mynediad

- 1.19. Bydd y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu yn storio'r ddwy fersiwn o'r cofnodion. Caiff y cofnodion wedi'i golygu o'r cyfarfod eu storio gyda'r llythrennau "PC" wedi'u hychwanegu at deitl y ffeil er mwyn dangos mai dyma'r copi y mae modd ei gyhoeddi. Bydd y copi y mae modd ei gyhoeddi o'r cofnodion yn cael ei lanlwytho i'r wefan.
- 1.20. Dylid gwneud ceisiadau i gael mynediad at y copiâu llawn o gofnodion a chofnodion nas cyhoeddwyd ar y wefan i'r Tîm Gwasanaethau Llywodraethu i'w hadolygu drwy gyfeiriad ebost y Pwyllgorau (committees@caerdydd.ac.uk). Adolygir y rhain gyda'r Tîm Gwasanaethau Sicrwydd i bennu a ddylid ystyried y cais o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth neu a ellir rhyddhau'r wybodaeth ar ôl i Gadeirydd/Ysgrifennydd y Pwyllgor awdurdodi hynny.

2. Cyhoeddi Papurau Cyfarfodydd

- 2.1. Ni chyhoeddir papurau cyfarfodydd pwyllgorau ar y rhyngrwyd neu'r fewnrwyd. Bydd y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu yn eu storio.
- 2.2. Bydd papurau cyfarfodydd Pwyllgorau ar gael i'r sawl sy'n holi amdanynt lle y bo'n bosibl. Dylid gwneud ceisiadau i dderbyn copiâu o bapurau cyfarfodydd pwyllgor i'r Tîm Gwasanaethau Llywodraethu eu prosesu. Bydd y penderfyniad i ryddhau papur yn dilyn cais yn amodol ar bwyntiau 2.4-2.12 ac yn unol â'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.
- 2.3. Gofynnir i awduron papurau gadarnhau categori papur wrth ei gyflwyno i'r Tîm Gwasanaethau Llywodraethu. Caiff papurau eu categoreiddio fel y manylwyd yn y Polisi Categoreiddio ac Ymdrin â Gwybodaeth:
- Cyfrinachol lawn (C1)
 - Cyfrinachol (C2)
 - Heb fod yn gyfrinachol
- 2.4. Bydd cadarnhad o gategori'r papur a'r gofynion o ran rhannu ymhellach wedi'u cynnwys ar ddalen glawr y papur.

- 2.5. Bydd papurau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau'n cael eu cadw gan y Tîm Gwasanaethau Llywodraethu. Byddant yn cael eu cadw gyda rhif y papur fel teitl y ddogfen.
- 2.6. Os yw aelod o'r tîm Cefnogi Pwyllgorau yn teimlo bod papur wedi'i osod yn y categori anghywir, codir hyn gyda'r Cadeirydd a/neu'r Ysgrifennydd yng nghyfarfod briffio'r Cadeirydd neu drwy ohebiaeth.
- 2.7. Ychwanegir "HC" (Highly Confidential) ar ôl rhif y papurau sy'n Gyfrinachol lawn (C1).
- 2.8. Ni ryddheir papurau y nodwyd eu bod yn Gyfrinachol lawn (C1) onid oes rheidrwydd i wneud hynny (e.e. oherwydd gofyniad Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000).
- 2.9. Ychwanegir "C" (Confidential) ar ôl rhif y papurau sy'n Gyfrinachol (C2).
- 2.10. Ar gyfer papurau y nodwyd eu bod yn Gyfrinachol (C2), gofynnir i awduron papurau gadarnhau a ganiateir rhannu papur os daw cais, neu a oes cyfnod o amser y caniateir rhannu papur wedi iddo fynd heibio. Gofynnir iddynt gadarnhau hyn wrth gyflwyno'r papur i'r Tîm Gwasanaethau Llywodraethu.
- 2.11. Gellir rhyddhau papurau yn y categori Heb fod yn Gyfrinachol.
- 2.12. Bydd ceisiadau i gael mynediad at bapur sydd wedi'i nodi'n un Cyfrinachol (C2) yn cael eu rhoi i awdur y papur gael cadarnhau.
- 2.13. Os bydd awdur papur yn nodi na chaniateir ei rannu y tu allan i'r pwyllgor, ychwanegir "X" at deitl y ffeil i ddangos na ddylid ei rannu.